**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# ADOLYGIAD POLISI O ADFYWIO CYMUNEDOL: MATERION SY'N DOD I'R AMLWG

## Pwnc

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar y materion sy'n deillio o'r gwaith hyd yma ar yr adolygiad polisi o adfywio cymunedol.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y materion a amlinellwyd yn yr atodiad ac ystyried yr opsiynau amrywiol a nodwyd.

## Amseru

3. Yng ngoleuni barn y Pwyllgor, bydd gwaith yn dechrau i baratoi rhestr gychwynnol o argymhellion i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf. Unwaith y bydd y broses o lunio'r rhain wedi'i chwblhau'n derfynol, bydd drafft cyntaf o adroddiad y Pwyllgor yn cael ei baratoi er mwyn ei ystyried.

## Y Cefndir

4. Fel rhan o'i adolygiad polisi, mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd ag ymarfer ymgynghori ysgrifenedig, wedi derbyn cyflwyniadau llafar gan 14 o sefydliadau sy'n cynrychioli'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, sy'n ymwneud â phob agwedd ar bryderon cymunedol ac yn cynrychioli pob grwp oedran. Mae'r pwyllgor hefyd wedi ymweld â sefydliadau ar lawr gwlad yng Ngogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru.
5. Mae'r rhan honno o'r adolygiad lle y cesglir gwybodaeth wedi'i chwblhau bellach ac mae rhai materion allweddol wedi deillio o'r gwaith hwn. Byddai'n gymorth pe baem yn cael gwybod barn y Pwyllgor ar y materion yma ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r Ysgrifenyddiaeth symud ymlaen i gam nesaf yr adolygiad a nodi'r prif argymhellion i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 22 Mai. Wrth gwrs, bydd yr argymhellion drafft hyn yn ddarostyngedig i drafodion y Pwyllgor a gellir eu diwygio a'u mireinio fel rhan o'r broses o baratoi adroddiad y Pwyllgor.

**Yr Ysgrifenyddiaeth Pwyllgorau Mai 2002**